



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Tîm Polisi Rhywogaethau Anffroddol
Rhaglen Bioamrywiaeth
Adran Amgylchedd Bwyd a Materion Gwledig,
a Gwarchod Natur
Llywodraeth Cymru

20 Medi 2013

Annwyl Syr/Madam,

Rheoli'r afanc Ewropeaidd (*Castor fiber*)

Mae Adran 14(a) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (WCA) yn cyfeirio at ryddhau i'r gwyllt unrhyw anifail nad yw'n byw ym Mhrydain Fawr fel arfer. Mae afancod yn cael eu rhyddhau i'r gwyllt yn Knapdale, Yr Alban, am gyfnod arbrofol ar hyn o bryd (llai nag ugain anifail) ac mae tua 150 ohonynt yn byw yng nghyffiniau'r afon Tay yn ogystal â niferoedd llai yn Lloegr. Felly, mae eu statws o fewn y DU yn newid. Felly mae Cyfoeth Naturiol Cymru, Natural England (NE) a'r Joint Nature Conservation Committee (JNCC) yn cefnogi'r cynnig i gynnwys yr afanc Ewropeaidd ar Atodlen 9 y WCA er mwyn egluro'r ddeddf mewn perthynas â'r statws hwn sy'n newid ac er mwyn gwella dulliau rheoli rhyddhau afancod i'r gwyllt yn y dyfodol trwy gyflwyno'r angen am drwydded. Fodd bynnag, mae Cyfoeth Naturiol Cymru, NE a'r JNCC o'r farn bod y cod ymddygiad gwirfoddol yn aneglur ac y dylid ei wella.

Rheoliadau rheoleiddiol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn y bydd y cynnig i ychwanegu afancod at Atodlen 9 yn rhoi neges glir am bwysigrwydd datblygu cynigion ailgyflwyno yn gywir. Byddai sefydliadau, megis cyrff anllywodraethol, sydd yn ystyried ailgyflwyno afancod yn debygol o ddilyn canllawiau'r IUCN ac ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â'u cynnig hyd yn oed pe na bai'n ofynnol cael trwydded. Fodd bynnag, byddai cynnwys yr afanc Ewropeaidd ar Atodlen 9 yn sicrhau bod proses sydd yn cael ei rheoleiddio'n gywir ar waith ar gyfer ystyried cynigion o'r fath.

Ni fydd y cynnig hwn yn rhoi rheolaeth lwyr dros ryddhau afancod gan na fyddai unigolion sydd yn dueddol o ryddhau afancod yn llechwraidd yn debygol o beidio gwneud hynny oherwydd bod yr afanc wedi ei ychwanegu at Atodlen 9. Fodd bynnag, bydd parhau â'r dull diogelu cyfreithiol hwn yn

Ffôn/Tel: 029 2046 6047

Ffacs/Fax: 029 2046 6413

Ebost/Email: ceri.davies@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk www.naturalresourceswales.gov.uk

Maes y Ffynnon, Penrhosgarnedd, Bangor, LL62 5PU

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg Correspondence welcomed in Welsh and English



atal llawer o bobl ac yn rhoi cyfle i erlyn os bydd digon o dystiolaeth bod rhywun wedi rhyddhau afanc yn anghyfreithlon.

Ar y cyfan, rydym yn cefnogi casgliadau'r asesiad effaith. Byddai wedi bod yn ddefnyddiol hefyd pe bai'r asesiad 'Costau a Manteision' wedi ystyried effaith rhyddhau teulu o afancod i gynefin anaddas ar rywogaethau brodorol a chynefinoedd eraill.

Mae'r asesiad Costau a Manteision yn nodi y gellid defnyddio'r ddeddfwriaeth i sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau ailgyflwyno'r IUCN, gan gynnwys defnyddio anifeiliaid sydd â'r berthynas agosaf â'r boblogaeth Brydeinig ddiiflanedig fel anifeiliaid sefydlu. Byddai gwreiddiau genetig yn ystyriaeth mewn unrhyw gynnig ailgyflwyno, ond byddai angen edrych hefyd ar iechyd genetig yr anifeiliaid sefydlu. Mae papur Halley (2011) y cyfeirir ato yn yr Asesiad Effaith yn nodi hefyd bod dystiolaeth o golli amrywiaeth genetig mewn rhai poblogaethau o afancod oherwydd mewnfridio.

Nid ydym yn rhagweld y bydd cynnwys yr afanc ar Atodlen 9 yn cael unrhyw effaith fusnes sylweddol ar Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae aelodau staff eisoes mewn cysylltiad â'r sefydliad sy'n datblygu cynigion i ailgyflwyno afancod yng Nghymru a byddai'r rôl trwyddedu yn barhad o'r sefyllfa gyfredol.

Cod ymarfer

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau, lle bynnag bo hynny'n bosibl, nad yw afancod sy'n cael eu mewnfario yn dod â *Echinococcus multilocularis* i'r DU. Byddai cynnwys afancod ar Atodlen 9 yn helpu i reoli'r perygl hwn ond ni fyddai'n ffordd o reoli'r perygl gan afancod sy'n cael eu mewnfario at ddefnydd mewn mannau caeedig. Rydym felly o blaid datblygu'r cod ymarfer.

Yn ein barn ni, byddai o fantais i'r cod ymarfer fod ychydig yn gliriach. Er enghraifft, mae'r cod yn gofyn i'r rhai hynny sy'n dal afancod '*to confirm that only animals that were sourced from areas considered to be free from EM ... are in future released ...*'. Nid yw'n nodi wrth bwy na sut y dylid cadarnhau hyn. Yn ogystal, byddai'n ddefnyddiol i'r cod ymarfer gyfeirio at sicrhau bod unrhyw fannau caeedig yn ddiogel er mwyn sicrhau nad yw afancod yn dianc a dylai gyfeirio pobl at ganllawiau sy'n bodoli ar ofynion ffensio.

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r uchod, cysylltwch â Jo Hughes neu Liz Halliwell jo.hughes@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk neu liz.halliwell@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Ffôn/Tel: 029 2046 6047

Ffacs/Fax: 029 2046 6413

Ebost/Email: ceri.davies@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk www.naturalresourceswales.gov.uk

Maes y Ffynnon, Penrhosgarnedd, Bangor, LL62 5PU

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg Correspondence welcomed in Welsh and English



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Yn gywir

Ceri Davies
Executive Director for Knowledge, Strategy & Planning
Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyfuno gwaith Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru, yn ogystal â rhai o swyddogaethau Llywodraeth Cymru. Ein pwrpas yw sicrhau y bydd adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio yn gynaliadwy yn awr ac i'r dyfodol.

Ffôn/Tel: 029 2046 6047

Ffacs/Fax: 029 2046 6413

Ebost/Email: ceri.davies@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk www.naturalresourceswales.gov.uk

Maes y Ffynnon, Penrhosgarnedd, Bangor, LL62 5PU

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg Correspondence welcomed in Welsh and English